

Drafft o Ganlyniadau Statudol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2019-2022

Hyder y Cyhoedd

- 1. Meithrin ymddiriedaeth â'n holl gymunedau drwy sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn CPS. Yn arbennig felly pobl groenddu Caribïaidd ac oedolion anabl sydd â lefelau ymddiriedaeth is yn y System Cyfiawnder Troseddol yn ôl Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr. Yn ogystal â Sipsiwn, Cymunedau Teithwyr Roma, pobl sy'n ceisio lloches a mudwyr sydd hefyd â lefelau is o hyder ac ymddiriedaeth.**

Gweithgareddau allweddol ar gyfer 2019-2020

- Meysydd ac Adrannau Gwaith Achos CPS i gynnal ymarfer mapio rhanddeiliad a chymunedau er mwyn darparu gwybodaeth a blaenoriaethu gweithgaredd ymgysylltu cymunedol lleol;
- Creu cynlluniau peilot ac ymrweiddio ffyrdd newydd o ymgysylltu â chymunedau na chlywir amdany'n nhw yn aml, drwy'r rhaglen 'Sgyrsiau Cymunedol' sy'n cael ei harwain gan Brif Erylnwyr y Goron;
- Adolygu'r cylch gorchwyl ac adfywio aelodaeth y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol, a fydd yn goruchwyllo cynnydd yn erbyn ein hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Sicrhau bod CPS yn cwrdd â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

- 2. Gwneud cydraddoldeb a chynhwysiant yn fusnes i bawb, drwy sicrhau bod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cael ei defnyddio yn gyson ac yn effeithiol ynghylch cyflogaeth, a sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith gyda'r cyhoedd.**

Gweithgareddau allweddol ar gyfer 2019-2020

- Gwella diwylliant a dull ymhellach tuag at gynnal Dadansoddiad Cydraddoldeb, cynnwys trefniadau llywodraethu, cyflawni drwy hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a newidiadau proses er mwyn dangos pa mor gadarn y mae Dadansoddiad Cydraddoldeb yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth;
- Datblygu proses sicrwydd leol a chenedlaethol i fonitro gweithrediad a chynnydd y Strategaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant Cymunedol ac amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Annog staff o bob lefel, swyddogaeth a nodwedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu cymunedol.

Gwaith Achos o Ansawdd Uchel

- Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i gyflawni gwaith achos o ansawdd uchel drwy sicrhau bod tueddiadau trosedd ac adborth gan randdeiliaid yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein blaenoriaethau. Gwella dull CPS tuag at gyflawni gwasanaeth a gwaith achos, mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched, trosedd casineb, trais difrifol, iechyd meddwl a chymunedau sy'n cael eu heffeithio yn anghymesur gan drosedd penodol a rhannu nodwedd warchoddedig benodol.**

Gweithgareddau allweddol ar gyfer 2019-2020

- Adfywio aelodau'r Paneli Ymglymiad Craffu Lleol (PYCLI) er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cynrychiolwyr o'r holl gymunedau sy'n cael eu heffeithio gan yr achosion a adolygwyd;
 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid i adolygu dull CPS tuag at waith achos sy'n cynnwys dioddefwyr, tystion a diffynyddion gyda phroblemau iechyd meddwl ac anabledau dysgu, er mwyn gwella eu profiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol;
 - Sicrhau bod adborth gwaith achos o'r PYCLlau a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol yn bwydo i brosesau Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos Lleol a chenedlaethol, sy'n helpu i lunio blaenoriaethau cenedlaethol.
- Sicrhau bod erlyniadau yn deg ac yn dryloyw drwy sicrhau bod anghymesuredd digyfiawnhad yn cael ei nodi a bod gweithredu priodol yn digwydd lle bynnag y bo angen.**

Gweithgareddau allweddol ar gyfer 2019-2020

- Cyhoeddi data ynglŷn â CPS yn gwneud penderfyniadau, wedi'i ddadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig lle y bo'n bosibl, a gweithredu yn briodol lle gwelir anghymesuredd digyfiawnhad;
- Monitro perfformiad cenedlaethol a lleol ynglŷn â phroblemau sy'n effeithio yn anghymesur ar gymunedau gyda nodweddion gwarchoddedig, a gweithredu yn briodol lle y bo angen i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd;
- Datblygu ffordd o gyfathrebu â chymunedau sydd â lefelau isel o hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol er mwyn helpu i esbonio penderfyniadau a rhannu canlyniadau gwaith achos.

Cefnogi Llwyddiant ein Pobl

- Cynyddu cynrychiolaeth amrywiol y gweithlu a chyfraddau datganiadau er mwyn sicrhau bod gweithlu CPS yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a chyfradd y bobl sy'n datgan eu gwybodaeth bersonol ar ein system sydd yn 75% neu'n uwch.**

Gweithgareddau allweddol ar gyfer 2019-2020

- Sicrhau bod strategaethau a chynlluniau lleol a chenedlaethol yn gosod targedau ac yn gweithredu yn gadarnhaol lle y bo angen er mwyn sicrhau bod y gweithlu lleol ar bob lefel yn adlewyrchu poblogaethau lleol;
- Cefnogi ac annog gweithwyr i ddatgan eu nodweddion personol ar systemau AD;
- Parhau i ddadansoddi holl ddata cyflogaeth yn flynyddol er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw beth sy'n ymddangos yn annheg mewn unrhyw ymarfer CPS.

6. Datblygu diwylliant cynhwysol yn y gweithle drwy sicrhau bod ein diwylliant sefydliadol yn caniatáu i'r holl weithwyr deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu bod yn ffynnu a'u bod yn datblygu yn y gweithle, beth bynnag yw eu nodweddion personol a/neu'u cefndir.

Gweithgareddau allweddol ar gyfer 2019-2020

- Gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr undebau llafar a rhwydweithiau gweithwyr er mwyn nodi rhwystrau posibl i gynhwysiant y gweithlu ar gyfer pawb a datblygu dulliau i'w goresgyn;
- Parhau i ymwreiddio cyflwyniad y rhaglen gwrth-fwlio ac aflonyddu, *Respect* (sy'n anelu at nodi ac ymdrin ag ymddygiad amhriodol yn y gweithle sy'n gysylltiedig â bwlio ac aflonyddu), gwerthuso ei heffaith a chymryd camau gweithredu dilynol, sy'n gysylltiedig â chanlyniadau lleol yr Arolwg Pobl;
- Parhau i fesur profiad y gweithiwr fesul grŵp demograffig drwy Arolwg Blynyddol Pobl y Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau bod unrhyw wahaniaeth mewn profiad rhwng grwpiau yn cael ei nodi a'i weithredu.

Rhestr Termau

Proses Sicrwydd Gwaith Achos (PSGA)	<p>Pwrpas PSGA yw darparu cyfrwng cyson syml o fesur ansawdd y gwaith achos drwy CPS ar lefel yr Ardal, yr uned a'r unigolyn. Mae'r canlyniadau yn cael eu casglu i ddarparu trosolwg cenedlaethol.</p> <p>Mae'r cynllun yn un o'r prif offer i wella ansawdd y gwaith achos drwy CPS.</p>
Fforwm Atebolrwydd Cymunedol (FfAC)	<p>Mae'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol (FfAC) yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu goruchwyliaeth annibynnol o waith Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i gyflawni ein strategaeth cynhwysiant ac ymgysylltu cymunedol, a'n hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth statudol.</p> <p>Y FfAC yw un o'r mecanweithiau y mae CPS yn ei ddefnyddio i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol o'r sector cymunedol gwirfoddol, y byd academaidd a thrwy'r llywodraeth.</p>
Sgyrsiau Cymunedol	<p>Sgwrs rhwng CPS a chymunedau yw Sgyrsiau Cymunedol. Mae'n darparu cyfle i gymunedau, ac yn arbennig cymunedau na chlywir ganddyn nhw yn aml, gael rhannu eu profiadau, eu canfyddiadau a chodi eu lleisiau fel y gallan nhw gael eu clywed a dylanwadu yn gadarnhaol ar bolisi ac ymarfer yn y CPS. Mae cyfranogwyr yn cael y cyfle i amlinellu blaenoriaethau lleol ac maen nhw'n gallu trafod dulliau 'o'r gwaelod i fyny' wedi'u harwain gan y gymuned tuag at ymdrin â'r heriau presennol y mae cymunedau yn eu hwynebu.</p>
Panelli Ymglymiad Craffu Lleol (PYCLlau)	<p>Mae Paneli Ymglymiad Craffu Lleol (PYCLlau), sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac academyddion, yn darparu adborth ynglŷn â gwaith achos a gwneud penderfyniadau terfynol y CPS, yn arbennig felly mewn perthynas â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched a Throseddau Casineb.</p>
Arolwg Pobl	<p>Gofynnir i staff gwblhau arolwg blynyddol er mwyn rhannu eu safbwyntiau a'u profiadau ynglŷn â sut y mae CPS yn eu trin nhw mewn perthynas â nifer o feysydd, yn cynnwys: cynhwysedd a thriniaeth deg, adnoddau a baich gwaith, arweinyddiaeth a rheoli newid, dysgu a defnyddio ynghyd â chyflog a buddion. Mae'r canlyniadau yn cael eu hadolygu ar lefel genedlaethol a lleol fel ei gilydd ac mae camau gweithredu yn cael eu llunio er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi.</p>
Nodweddion gwarchoddedig	<p>O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n darparu fframwaith cyfreithiol tuag at ymdrin ag anfanteisio a gwahaniaethu, y nodweddion gwarchoddedig yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred (yn cynnwys dim crefydd), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.</p>
Anghymesuredd digyfiawnhad	<p>Mae'r term "anghymesuredd digyfiawnhad" yn cyfeirio at y gymhareb rhwng y ganran o unigolion mewn grŵp penodol o'i gymharu â chanran yr un grŵp yn y boblogaeth yn gyffredinol. Er enghraifft, gall fod gorgynrychiolaeth o grwp ethnig penodol ar adeg penderfyniad penodol yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'n rhaid i unrhyw weithgaredd sy'n creu effaith anghymesur ac anffafriol ar unrhyw leiafrif ethnig (neu unrhyw grŵp arall a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) gael cyfiawnhad cyfreithiol i fod yn gyfreithlon. Os yw'r anghymesuredd yn ddigyfiawnhad, mae'n rhaid i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gymryd camau ystyrlon i ymdrin â hyn.</p>